

## **Cyngor Cymuned Llaneilian (266)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mehefin 9, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Glenys Jones	T Elfyn Hughes Helen Hughes	Thomas D Jones Gordon Hayes	John Griffiths Carol Whitaker
------------	----------------------------------	--------------------------------	--------------------------------	----------------------------------

Ymddiheuriadau:	David Gerrard	Cyng. Wil Hughes	Cyng. Aled M Jones
-----------------	---------------	------------------	--------------------

### **1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod**

### **2 Datgan Diddordeb**

T Jones – Cais Cymdeithas y Leinws am arian

### **3 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Gan nad oedd Dafydd Griffiths wedi bod yn y swydd am y cyfnod llawn, fe gynigwyd ei fod yn parhau yn Gadeirydd am flwyddyn arall, a bod Hefina Williams yn parhau yn Is-gadeirydd am yr un cyfnod. Holl aelodau yn gytûn.

### **4 Enwebu Cynrychiolwyr ac Is-bwyllgorau**

Cytunwyd ar y canlynol –

Pwyllgor y Llithrfa – D Griffiths, T Jones, J Griffiths (ac aelodau eraill o'r gymuned)

Pwyllgor y Fynwent – D Griffiths, H Williams, T Jones, H Hughes, J Griffiths

Pwyllgor Caeau Chwarae – D Griffiths, H Williams, C Whitaker, G Hayes

Cynrychiolydd ar Bwyllgor y Neuadd – H Hughes

Cynrychiolydd ar Lywodraethwyr yr Ysgol – G Jones

### **5 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Jones, eilio E Hughes.

### **6 Materion yn Codi**

6.1 Sedd Wag - Mae'r hysbysiad swyddogol wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd. Bydd angen disgwyl nes Mehefin 15 i weld os oes unrhyw un wedi rhoi eu henwau ymlaen am etholiad. Os na fydd Etholiad, bydd hysbyseb arall i'w arddangos am gyfnod cyn gall yr aelodau gyfethol. Bydd posib efallai trafod cyfethol yng nghyfarfod Gorffennaf. CET

6.2 Rhyd y Groes - Er gwybodaeth, mae Cyngor Cymuned Llanbadrig wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus ar y cyd gyda Chyngor Tref Amlwch. Mae disgwyl i'r Cyngor Sir gadarnhau cyfarfod gyda'r swyddogion priodol er mwyn trafod pryderon y cymunedau cyn ymateb i'r cais cynllunio.

6.3 Ymgynghoriad ar Drethi Cyngor – dim sylw pellach.

### **7 Cynllunio**

7.1 Ceisiadau – Roedd un cais i'w drafod sef gosod dau antenna a disg lloeren ynghyd a lleoli cwpwrdd offer ger y mast radio yn Nebo. Nid oedd gwrthwynebiad. CET

7.2 Penderfyniadau - Nid oedd penderfyniadau i'w cofnodi.

7.3 Datblygiad ger Corn Cam - daw llythyr gan y Cyngor Sir yn gofyn am farn y Cyngor am enwi'r datblygiad yma o dri thŷ. Roedd y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais pan gafodd ei gyflwyno iddynt ar sail y diffyg yn system garffosiaeth y pentref a mynediad i'r lon fawr. Cynigwyd bod y Cyngor yn gofyn am arolwg ar y system garffosiaeth, a'i allu i ddelio a mwy o dai yn y pentref. Cynnig E Hughes, eilio G Hayes. CET

Mae problemau arogl carffosiaeth yn parhau yn y cae chwarae, a chynigwyd bod llythyr yn cael ei hanfon at y Bwrdd Dwr i godi ymwybyddiaeth, gyda chopi at yr adran gynllunio a'r Cyngorwyr Sirol. Cynnig T Jones, eilio E Hughes. CET

Teimlai'r aelodau mai Maes Lletroed, neu rywbeth tebyg y dylai'r datblygiad gael ei alw gan nad oedd yr enwau a gynigwyd a chysylltiad â'r ardal gyfagos. Cynnig E Hughes, eilio J Griffiths. CET

### **8 Materion Ariannol**

8.1 Archwiliad –

- Mewnol – Nid oedd unrhyw broblemau na materion i'w nodi yn dilyn yr archwiliad mewnol.
- Allanol - Mae'r dogfennau wedi eu paratoi ar gyfer yr archwiliad mawr. Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol yn unol â'r gofyn.

8.2 Taliadau –  
Cymeradwywyd taliad o £162 i IG Jones am wasanaethau proffesiynol (cyflogau) 2014/15.

8.3 Cais am Arian –  
Trafodwyd cais Cymdeithas y Leinws am gymorth ariannol. Penderfynwyd dylid cefnogi'r Gymdeithas, ond y byddai o fudd iddynt ymestyn allan a chyrraedd mwy o bobl, ac aelodau newydd bosib. Cytunwyd cyfrannu £50. Cynnig G Hayes, eilio E Hughes.

## 9 Llithrfa

Nodwyd bod y goriadau yn araf iawn yn cael eu dosbarthu hyd yma, gyd dim ond 28 o'r 100 wedi eu rhannu allan. Peryg y bydd angen codi'r briseb eto'r flwyddyn nesaf i wneud i fynnu am yr arian na chafwyd drwy'r system dosbarthu yma.

Nodwyd na fydd y Clerc ar gael am gyfnod yn ystod mis Mehefin, ac fe gytunwyd y dylid anfon nodyn i'r swyddogion perthnasol i ofyn nad oedd y bolard yn cael ei roi yn ei le nes bod y Clerc yn ôl.

## 10 Mynwent / Cemetery

Cafwyd e-bost yn hysbysebu'r Cyngor o brisiau claddu'r Eglwys yng Nghymru (Costau Eglwys Llanwenllwyfo). Trafodwyd costau Llaneilian (a Bosra) o'u cymharu â rhai'r Eglwys, costau Llanbadrig a chostau Amlwch. Nodwyd bod prisiau cynnal a chadw yn parhau i godi yn ogystal â phris tir, ac nad oedd llawer iawn o le ar ol yn y mynwentydd.

Mae angen hefyd trafod ac edrych ar reolau'r fynwent a pherchnogaeth y beddi, o bosib gan ddatblygu polisi i gadarnhau'r rheolau. Penderfynwyd y dylid trefnu cyfarfod ar y cyd gyda chynrychiolwyr o fyrddau claddu eraill cyfagos i rannu syniadau ynglŷn â rheolau a chostau.

CET

## 11 Gohebiaeth

11.1 Llythyr yn gwahodd cynrychiolaeth i gyfarfod cyhoeddus yn ymwneud a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Môn 2017.

11.2 Canllawiau newydd am ddatgan diddordeb a chofrestru diddordebau aelodau

11.3 E-bost gan y Swyddog Monitro yn atgoffa aelodau bod posib cael 'caniatâd arbennig' gan y pwyllgor safonau os am drafod unrhyw faterion ble mae ganddynt ddiddordeb rhagfarnus.

11.4 Newyddlen ddiweddaraf gan y Grid Cenedlaethol

## 12 Unrhyw Fater Arall

12.1 Cyfarfod gyda'r Heddlu - Cafwyd crynodeb gan G Hayes o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y pentref yn ystod yr wythnosau diwethaf gan arwain at yr Heddlu yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Bentref. Bydd cyfarfod arall a'r heddlu yn y dyfodol agos.

12.2 Nodwyd bod lladrad o blwm oddi ar do'r Eglwys hefyd wedi digwydd yn yr wythnosau diwethaf, ond nad oedd hwn wedi ei gysylltu â'r digwyddiadau eraill yn y pentref.

12.3 Nodwyd bod wal gardd Pen yr Yrfa yn plygu ac yn beryg o ddisgyn.

12.4 Nodwyd bod cyflwr y wal o ffin Tynrhos hyd at gyffordd Marie Curie angen sylw.

## 13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 7/7/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.20 o'r gloch.